

Meini Prawf Cymhwysra ar gyfer Cyllid 2021

Diolch am roi o'ch amser i weld ai Lloyds Bank Foundation yw'r cyllidwr priodol i'ch elusen chi.

Mi fyddai'n werth chweil darllen y ddogfen hon cyn dechrau paratoi eich cais inni, gan ei bod yn egluro pwy a beth rydym yn ei ariannu, yn ogystal â sut rydym yn gwneud penderfyniadau. Mae'n cynnwys pum adran (cliciwch ar yr adrannau isod i symud drwy'r ddogfen):

1. Ein dull cyffredinol o ddyrannu grantiau
2. Ein Meini Prawf Cymhwysra Sylfaenol
3. Ein 'Materion cymdeithasol cymhleth'
4. Yr hyn rydym yn chwilio amdano yn y gwaith rydym yn ei ariannu: 'Our Programme Fit'
5. Sut i gysylltu â ni

Gobeithiwn ei fod yn cynnwys popeth mae angen i chi ei wybod amdanom, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost atom (enquiries@lloydsbankfoundation.org.uk) neu ffoniwch ni ar 0370 411 1223 cyn dechrau paratoi eich cais.

Gan ddymuno pob llwyddiant i chi yn eich gwaith,



Harriet Stranks
Director of Grants
Lloyds Bank Foundation for England and Wales

1. Ein dull cyffredinol o ddyrannu grantiau

Hyd yn oed os ydych wedi cael cymorth gennym yn y gorffennol, efallai nad ydych yn ymwybodol o'r newidiadau i'n dull ariannu fel:

- i) Ein blaenoriaethau cyllido rhanbarthol
- ii) Ein hymagwedd at ddiogelu a safonau ansawdd
- iii) Ein hymrwymiad i Gydraddoldeb Hiliol

i) **Ein blaenoriaethau cyllido rhanbarthol**

Rydym yn cydnabod bod llawer o elusennau a fyddai'n hoffi ac a allai elwa ar ein cefnogaeth ond, fel pob cyllidwr arall, mae terfyn ar yr adnoddau sydd ar gael inni. Yn wir, dim ond tua 190 o grantiau dwy flynedd anghyfyngedig o £50,000 y byddwn yn gallu eu dyrannu i elusennau bach yng Nghymru a Lloegr eleni. Gwyddom fod llawer mwy na hynny a fyddai'n gymwys i ymgeisio.

Rydym hefyd am fod yn agored a thryloyw ag elusennau ac eisiau i chi wneud y gorau o'ch amser drwy ei gwneud yn glir o'r cychwyn pa elusennau rydym fwyaf tebygol o'u hariannu ar unrhyw adeg. Felly, rydym wedi cyflwyno *Blaenoriaethau Rhanbarthol*.

Mae *Blaenoriaethau Rhanbarthol* yn ystyried anghenion lleol, nifer yr elusennau bach a chanolig, natur y rhanbarth a lefel y buddsoddiad mae'r Sefydliad wedi'i roi i bob mater cymdeithasol cymhleth yn yr ardal honno, gan gynnwys ein portffolio o grantiau byw. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i flaenoriaethu buddsoddiad mewn materion cymdeithasol cymhleth penodol mewn rhannau penodol o Gymru a Lloegr.

Mae hynny'n golygu, pan fyddwch yn gwneud cais, rhaid i chi'n gyntaf ddewis y mater cymdeithasol cymhleth rydych yn mynd i'r afael ag ef, ac yna ym mha Awdurdod Lleol rydych yn gwneud y rhan fwyaf o'ch gwaith. Yn seiliedig ar yr wybodaeth honno, byddwch wedyn yn gallu gweld a fyddwn yn debygol o dderbyn cais gennych ar yr adeg honno. Cafodd y *Blaenoriaethau Rhanbarthol* presennol eu hadolygu a'u diweddarau ddechrau Awst 2021, a byddant mewn grym tan ddechrau 2022.

ii) **Ein hymagwedd at ddiogelu**

Mae'r Sefydliad wedi ymrwymo i hybu diogelwch pawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r elusennau rydym yn eu hariannu ac felly byddwn yn adolygu eich trefniadau a'ch arferion diogelu fel rhan o'n hasesiad. Mae'r Sefydliad yn cydnabod ac yn cymryd ei gyfrifoldebau o ddifrif i hybu llesiant oedolion mewn perygl/plant os byddwn yn ymwybodol o unrhyw bryderon o ran diogelu.

Fel elusen, mae gan y Sefydliad ei bolisi diogelu a'i brosesau mewnol ei hun, i sicrhau bod digwyddiadau sy'n dod i'n sylw'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod staff y Sefydliad yn ddiogel. Felly, nid yn unig y mae'n rhaid i'ch elusen fod â pholisi diogelu ar waith, ond byddwn hefyd yn asesu eich dealltwriaeth o'r polisi hwn yn ogystal â'r ymagwedd at ddiogelu ym mhob rhan o'ch sefydliad.

iii) **Ein hymrwymiad i Gydraddoldeb Hiliol**

Ers y llynedd, rydym wedi ymrwymo i neilltuo 25% o'n harian i elusennau sy'n cael eu harwain gan, ac sy'n helpu, cymunedau lleiafrifol ac sy'n profi radicaleiddio. Rhagorwyd ar y targed hwn a dyfarnwyd 38% o'n grantiau Cronfa Adfer ar ôl COVID i elusennau sy'n cael eu harwain gan ac sydd ar gyfer cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Rydym yn parhau â'r ymrwymiad hwn i neilltuo 25% o'n cyllid, ac, i sicrhau ein bod yn cyflawni hyn, rydym wedi lansio ein ffrwd cyllido Cydraddoldeb Hiliol.

Gallwch ymgeisio am yr arian hwn os yw eich elusen yn cael ei harwain gan ac ar gyfer cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig penodol, a'ch bod yn cydymffurfio â'r meini prawf cymhwystra sylfaenol a ddisgrifir yn adran 2. Mae hyn yn golygu y **bydd dros hanner eich Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cyfrif eu hunain fel aelodau o gymuned Ddu, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig.**

2. Ein Meini Prawf Cymhwysra Sylfaenol

Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys y manylion sydd wrth wraidd ein Gwirydd Cymhwysra Ar-lein, a dyma'r cam cyntaf o wneud cais inni.

I. Ciplwg: Ein rhestr wirio cymhwysra sylfaenol

I fod yn gymwys i ymgeisio am unrhyw un o'n grantiau, rhaid i'ch elusen gyflawni pob un o'r meini prawf canlynol. Os nad ydych yn cyflawni pob un o'r meini prawf hyn, rydym yn argymhell nad ydych yn cyflwyno cais; ni chaiff ceisiadau nad ydynt yn gymwys eu hystyried.

Rhaid i'r elusen gael:

- Rhif elusen gofrestredig (gall hyn fod fel CIO)
- Bwrdd gydag o leiaf tri Ymddiriedolwr nad ydynt yn perthyn i'w gilydd
- Incwm blynyddol rhwng £25,000 a £1m
- Ei chyfrif banc ei hun
- Cronfeydd wrth gefn rhydd sy'n llai na chostau gweithredu 12 mis
 - leiaf un set o gyfrifon blynyddol wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn Elusennau, wedi bod yn darparu gwasanaethau am fwy na blwyddyn yng Nghymru a/neu Lloegr
- Hanes blaenorol o weithio â phobl 17 oed a hŷn
- Polisi diogelu ar waith
- Wedi cyflawni un o flaenoriaethau rhanbarthol y Sefydliad ar adeg cyflwyno'r cais
- Dim grant Invest nac Enable byw â Lloyds Bank Foundation gyda mwy na chwe mis ohono'n weddill.

Os oes gennych grant 'Invest' neu 'Enable' â Lloyds Bank Foundation eisoes, dim ond o fewn chwe mis **olaf tymor eich grant y bydd modd i chi wneud cais inni.**

Fodd bynnag, os oes gennych grant ar y pryd drwy un o'n rhaglenni cenedlaethol (fel cyfiawnder troseddol, seilwaith neu ddiwygio lles), **neu os oes grant blwyddyn wedi'i ddyfarnu i chi ym mis Mai 2020**, rydych yn gymwys i ymgeisio am yr arian hwn.

Os nad ydych yn siŵr a yw hyn yn gymwys i'ch elusen chi, [cysylltwch â ni](#) cyn dechrau paratoi eich cais.

II. Eich statws elusennol

Rhaid i chi fod yn **Elusen neu Sefydliad Corfforedig Elusennol** wedi'i gofrestru â'r Comisiwn Elusennau, a byddwn yn gofyn am Rif Cofrestru eich Elusen ar ddechrau eich cais. Ni dderbynnir cofrestradau arfaethedig. Bydd gennych o leiaf **un flwyddyn o gyfrifon cyhoeddedig sy'n cynnwys cyfnod gweithredu o ddeuddeng mis**. Rhaid i'r cyfrifon ddangos eu bod yn rhai a 'dderbyniwyd' ar wefan y Comisiwn Elusennau.

III. **Eich cyllid**

Rhaid i incwm blynyddol **eich elusen fod rhwng £25,000 a £1 miliwn** yn eich set ddiwethaf o gyfrifon a gyhoeddwyd ar wefan y Comisiwn Elusennau. Mae hwn yn gyfanswm incwm ac, yn achos cyfrifon cyfunol, dylai gynnwys pob endid o fewn y cyfrifon hynny. Mae hyn yn gymwys hyd yn oed os yw eich incwm yn fwy na £1 miliwn o ganlyniad i daliad untro anarferol fel cymynrodd neu grant cyfalaf.

Fodd bynnag, os yw eich elusen wedi cael arian ar ran rhwydwaith o sefydliadau neu gonsortiwm, yn hytrach nag at ei ddefnydd ei hun, gallwn benderfynu a fyddwch yn gymwys yn ddibynnol ar fanylion y trefniant.

Rhaid **bod gennych gronfeydd wrth gefn rhydd sy'n cyfateb i lai na gwariant 12 mis yn eich** set ddiwethaf o gyfrifon cyhoeddedig¹. Mae hyn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn rydych wedi penderfynu eu dyrannu ond yn rhydd i'w dyrannu'n ôl yr angen, ond nid yw'n cynnwys gwerth asedau sefydlog fel adeiladau.

Rhaid i bob elusen **sy'n ymgeisio fod â'i chyfrif banc ei hun yn enw'r elusen**. Os bydd y cais yn llwyddiannus, rhaid i'r grant gael ei dalu i'r cyfrif hwn.

IV. **Eich gwaith**

Rhaid bod eich elusen yn gweithio **â phobl 17** oed a hŷn, sy'n profi o leiaf un o'r materion cymdeithasol cymhleth a restrir yn adran tri. Yr unig eithriad i hyn yw gwaith â rhieni ifanc o dan 17 oed.

Wrth asesu ceisiadau, byddwn yn gwirio bod gan yr elusen hanes blaenorol o ddarparu gwasanaethau cyfannol, trwyadl i bobl sy'n profi'r mater cymdeithasol cymhleth rydych yn ymdrechu i fynd i'r afael ag ef ers o leiaf blwyddyn. Rhaid eich bod hefyd yn darparu'r gwasanaethau hyn ar y pryd.

Os ydych wedi uno'n ddiweddar, yna rhaid bod hyn yn gymwys yn achos o leiaf un o'r elusennau cyn yr uno. Byddwn yn gofyn am dystiolaeth o wasanaethau a ddarparwyd i bobl sy'n cael eu heffeithio gan faterion cymdeithasol cymhleth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rhaid eich bod yn gweithredu'n bennaf yng **Nghymru a Lloegr**. Bydd y rhan fwyaf o amser eich elusen yn cael ei dreulio a'i harian yn cael ei wario ar weithgarwch yng Nghymru a/neu Lloegr, ac yn helpu pobl sy'n byw yng Nghymru a/neu Lloegr sy'n profi'r materion cymdeithasol cymhleth rydym yn eu hariannu.

Byddwn yn edrych ar yr amcanion a nodwyd gennych i sicrhau bod y gwaith rydych am ei ariannu'n cyd-fynd â diben eich sefydliad. Os ydych yn elusen ffydd, mae croeso i chi ymgeisio ond byddwn yn edrych yn ofalus ar eich gwaith i sicrhau bod gennych amcanion elusennol heblaw am hyrwyddo crefydd.

¹ Cronfeydd wrth gefn rhydd yw swm y cronfeydd wrth gefn arian parod anghyfyngedig a oedd ym meddiant eich elusen ar ddiwedd y flwyddyn.

V. Eich trefniadau llywodraethu

Bydd yn rhaid bod gennych Fwrdd ag o **leiaf dri Ymddiriedolwr** nad ydynt yn perthyn i'w gilydd, gyda'u henwau'n ymddangos ar eich cofnodion gyda'r Comisiwn Elusennau.

Os oes rhai o'r Ymddiriedolwyr yn perthyn, byddwn yn ystyried eu perthynas, unrhyw wrthdrawiad buddiannau, cydbwysedd grym yr Ymddiriedolwyr sy'n perthyn a sut mae hyn yn cael ei reoli. Er enghraifft, os oes dau o'r pedwar Ymddiriedolwr yn perthyn, rydym yn debygol o ddod i'r casgliad bod ganddynt ormod o ddylanwad a bod achos o wrthdrawiad buddiannau. Os oes dau allan o ddeg Ymddiriedolwr yn perthyn, a bod gweithdrefnau clir ar waith i reoli unrhyw wrthdrawiad buddiannau, mae hyn yn debygol o fod yn dderbyniol.

Nid ydym yn ariannu elusennau lle mae staff cyflogedig hefyd yn aelodau o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Mae hyn er mwyn sicrhau gwahanu clir rhwng dyletswyddau a phwerau Byrddau a thimau staff yr elusennau rydym yn gweithio â hwy.

Lle mae aelodau staff ac aelodau'r Bwrdd yn perthyn, byddwn am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau clir ar waith i reoli unrhyw wrthdrawiad buddiannau, ac ni fyddem yn disgwyl y byddai perthynas rheoli llinell ffurfiol rhwng yr unigolion. Ni ddylai llofnodwyr sieciau fod yn perthyn i'w gilydd.

Dim ond elusennau annibynnol y gallwn eu hariannu, felly byddwn yn edrych yn fanwl ar unrhyw gysylltiadau ffurfiol sydd gennych â sefydliadau eraill, cyrff rhiant neu strwythurau grŵp. Byddwn yn gwirio bod gan Fwrdd yr elusen sy'n ymgeisio reolaeth lawn dros ei gwaith, a bod unrhyw wrthdrawiad buddiannau neu drafodion â thrydydd partïon cysylltiedig yn cael eu hesbonio a'u rheoli'n fanwl.

VI. Eithriadau

Nid ydym yn ariannu'r sefydliadau canlynol:

- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol, neu unrhyw sefydliadau eraill nad ydynt yn elusennau neu CIO wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr
- Sefydliadau seilwaith neu 'ymbarél'
- Sefydliadau sydd â'r brif amcan o roi arian i unigolion neu sefydliadau eraill. Mae hyn yn golygu sefydliadau sy'n defnyddio mwy na 50% o'u gwariant blynyddol fel grantiau
- Ysbytai, awdurdodau iechyd neu hosbisau
- Gwasanaethau achub
- Meithrinfeydd, grwpiau cyn-ysgol neu gylchoedd chwarae
- Ysgolion, colegau neu brifysgolion
- Elusennau anifeiliaid
- Elusennau sy'n gweithio y tu allan i Gymru a Lloegr yn bennaf
- Sefydliadau heb ddiben/budd heblaw am hyrwyddo crefydd

3. Ein 'Materion Cymdeithasol Cymhleth' a 'Cydraddoldeb Hiliol'

Rydym yn ariannu sefydliadau sy'n helpu pobl sydd wedi'u heffeithio gan un neu ragor o'r Materion Cymdeithasol Cymhleth isod, sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar eu bywydau.

Bydd angen i fwy na hanner gwaith eich elusen gael ei neilltuo i fynd i'r afael ag un o'r 'Materion Cymdeithasol Cymhleth' isod, sy'n cael ei wneud mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r diffiniadau a geir yn adran 4. Rydym yn cyfeirio at hyn fel ein 'rheol 50%'.

Fodd bynnag, nid yw'r 'rheol 50%' hon yn gymwys i elusennau sy'n ymgeisio am waith o dan unrhyw un o'r canlynol:

- **Rhai sy'n Gadael Gofal**
- **Troseddu, Carchar neu Wasanaeth Cymunedol**
- **Masnachu mewn Pobl a/neu Gaethwasiaeth Fodern**
- **Rhieni Ifanc**
- **Cydraddoldeb Hiliol**

Yn yr achosion hyn, bydd angen i elusennau ddangos yn hytrach bod cyfran o'u gwaith yn cyd-fynd â'r diffiniadau a roddir yn adran 4. Gallai hyn, er enghraifft, fod yn brosiect sefydledig sy'n cynhyrchu canlyniadau positif i rai sy'n gadael gofal.

Rydym yn ariannu gwaith sy'n mynd i'r afael â'r 11 Mater Cymdeithasol Cymhleth canlynol, ac rydym hefyd yn ariannu gwaith o dan faes ar wahân 'Cydraddoldeb Hiliol':

Mater Cymdeithasol Cymhleth	A yw'r Rheol 50% yn Gymwys?	Diffiniad
Caethiwed a dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau, sylweddau a/neu gamblo	Ydy – rhaid i fwy na hanner eich gwaith ganolbwyntio ar y Mater Cymdeithasol Cymhleth hwn a chyd-fynd â'r diffiniadau yn Rhan 4 o'r canllaw hwn.	Pobl y mae eu bywydau'n cael eu heffeithio'n sylweddol gan eu dibyniaeth ar, er enghraifft, alcohol, cyffuriau, sylweddau neu gamblo. Bydd eich gwaith yn cynnwys gweithio'n uniongyrchol â'r unigolyn â'r ddibyniaeth a gall hefyd gynnwys gweithio â'u teuluoedd.



<p>Ceiswyr lloches a ffoaduriaid</p>	<p>Ydy – rhaid i fwy na hanner eich gwaith ganolbwyntio ar y Mater Cymdeithasol Cymhleth hwn a chyd-fynd â'r diffiniadau yn Rhan 4 o'r canllaw hwn.</p>	<p>Pobl sy'n ceisio lloches yn y DU neu sydd wedi cael statws ffoaduriaid yn y ddwy flynedd diwethaf.</p> <p>Gwasanaethau i bobl sy'n ceisio lloches neu sydd wedi cael statws ffoaduriaid yn y ddwy flynedd diwethaf ac a allai gynnwys cyngor mewnfudo, cyngor lles, a help i integreiddio i'w cymuned leol.</p> <p>I gael arian ar gyfer gwaith sy'n cynnwys cyngor mewnfudo bydd angen i chi feddu ar a gallu dangos tystiolaeth eich bod yn gweithio tuag at achrediad OISC.</p> <p>Mae cwestiynau y gall eich asesydd eu gofyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • O'r ffoaduriaid rydych yn gweithio â hwy, pa ganran ohonynt y cafodd eu cais am loches yn cael ei ganiatáu yn y ddwy flynedd diwethaf? • Sut ydych chi'n helpu eich defnyddwyr gwasanaeth ar ôl y penderfyniad ar eu cais? • Os yw eich gwasanaethau'n cynnwys darparu cyngor mewnfudo, a oes gennych, neu a ydych chi'n gweithio tuag at, achrediad OISC? • Sut ydych chi'n gweithio â gwasanaethau lleol eraill sy'n helpu pobl sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid?
<p>Rhai sy'n gadael gofal</p>	<p>Nag, oes, ond rhaid i gyfran o'ch gwaith ganolbwyntio ar rai sy'n Gadael Gofal, a chyd-fynd â'r diffiniadau yn Rhan 4 o'r canllaw hwn.</p>	<p>Mae pobl sydd ar hyn o bryd yn rheoli'r pontio ar ôl treulio amser mewn gofal fel plentyn (h.y. rhai o dan 18 oed). Gallai gofal o'r fath fod yn ofal maeth, gofal preswyl neu drefniadau eraill.</p>
<p>Cam-drin domestig</p>	<p>Ydy – rhaid i fwy na hanner eich gwaith ganolbwyntio ar y Mater Cymdeithasol Cymhleth hwn a chyd-fynd â'r diffiniadau yn Rhan 4 o'r canllaw hwn.</p>	<p>Mae ein harian yn cefnogi elusennau sydd ag enw da am weithio â phobl sydd wedi profi cam-drin a/neu gyflawnwyr camdriniaeth.</p> <p>Rydym yn diffinio <i>cam-drin domestig</i> fel digwyddiad neu batrwm o ymddygiad sy'n rheoli, gorfodi, bygwth, diraddio a/neu dreisgar. Gall y cam-drin hwn gwmpasu, ond nid yw wedi'i gyfyngu i, gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, emosiynol neu economaidd.</p> <p>Mae ein diffiniad yn ymestyn i gynnwys elusennau sy'n gweithio â phobl sydd wedi profi trais sy'n seiliedig ar</p>



		<p>anrhydedd.</p> <p><i>Cyflawnwyr:</i> pobl sydd wedi cam-drin rhywun arall yn systematig i ennill grym neu reolaeth mewn perthynas ddomestig neu bersonol. Gall yr unigolyn hwn fod yn bartner, aelod o'r teulu neu ffrind.</p>
Digartrefedd/Pobl mewn llety bregus	<p>Ydy – rhaid i fwy na hanner eich gwaith ganolbwytio ar y Mater Cymdeithasol Cymhleth hwn a chyd-fynd â'r diffiniadau yn Rhan 4 o'r canllaw hwn.</p>	<p>Pobl heb lety, sy'n byw mewn llety dros dro, neu sydd mewn llety bregus lle mae risg uchel y byddant yn ddigartref.</p> <p>Mae ein harian yn helpu elusennau sydd ag enw da am weithio i fynd i'r afael â'r materion hyn. Nid ydym fel arfer yn ariannu llety argyfwng tymor byr e.e. llochesi gaeaf</p>
Anabledd dysgu	<p>Ydy – rhaid i fwy na hanner eich gwaith ganolbwytio ar y Mater Cymdeithasol Cymhleth hwn a chyd-fynd â'r diffiniadau yn Rhan 4 o'r canllaw hwn.</p>	<p>Rydym yn cydnabod bod ehangder y term 'Anabledd Dysgu' yn golygu bod angen canllaw llawer mwy penodol ar y mater cymdeithasol cymhleth hwn, a dyna'r rheswm pam mae'r canllaw hwn mor faith.</p> <p>Rydym wedi mabwysiadu diffiniad Mencap o anabledd dysgu:</p> <p>“Gallu deallusol is yw anabledd dysgu ac anhawster i wneud gweithgareddau bob dydd - er enghraifft, gwaith tŷ, cymdeithasu neu reoli arian - sy'n effeithio ar berson trwy gydol ei fywyd.</p> <p>Mae pobl ag anabledd dysgu yn tueddu i gymryd mwy o amser i ddyddu ac efallai y bydd arnyn nhw angen cefnogaeth i ddatblygu medrau newydd, deall gwybodaeth gymhleth a rhyngweithio â phobl eraill.”</p> <p>Rydym o'r farn mai'r tri angen mwyaf ar hyn o bryd i unigolion ag anabledd dysgu yw:</p> <ol style="list-style-type: none"> Mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol ac unigrwydd Cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (diffyg darpariaeth) a'r angen am eiriolaeth i gyflawni hyn Y dylai pawb (ag anabledd dysgu) 'gael cyfle i gyflawni' ac i 'ddyheu i fod y gorau y gallant'. Gall hyn gynnwys cyflawniadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth neu lety, ond heb ei gyfyngu i'r nodau hynny. <p>Rydym yn awyddus i gefnogi elusennau sy'n cyflawni'r uchod mewn ffordd drwyadl a chyfannol; mae achosion sy'n rhoi sylw i ynysu cymdeithasol yn unig (er enghraifft, noson glwb reolaidd) yn annhebygol o</p>



		<p>gael arian.</p> <p>Rydym yn cael llawer o geisiadau gan elusennau a ffurfiwyd i helpu pobl ag awtistiaeth ac ASD. Rydym yn cydnabod bod llawer o unigolion ag anabledd dysgu hefyd wedi cael diagnosis o awtistiaeth. Fodd bynnag, mae ein prif bwyslais ar helpu unigolion ag anabledd dysgu ac nid awtistiaeth yn unig.</p> <p>Bydd y mathau o waith a sefydliadau y byddwn yn eu hariannu o dan y mater hwn yn rhai:</p> <ol style="list-style-type: none"> Cynaliadwy, o ran adeiladu ar alluoedd yr unigolyn, a chael effaith barhaol Cynhwysol Cyd-gynhyrchu ac yn cael eu harwain gan y defnyddwyr Gallu dangos tystiolaeth o weithio â seilwaith neu gymunedau presennol i sicrhau buddiannau tymor hir a chynhwysiant – ni ddylai fod ar wahân Gallu cynhyrchu tystiolaeth effeithiol fel newidiadau mewn canlyniadau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch (nid y nod terfynol) neu bellter a deithiwyd
<p>Lechyd Meddwl</p>	<p>Ydy – rhaid i fwy na hanner eich gwaith ganolbwyntio ar y Mater Cymdeithasol Cymhleth hwn a chyd-fynd â'r diffiniadau yn Rhan 4 o'r canllaw hwn.</p>	<p>Pobl sy'n rheoli problemau iechyd meddwl difrifol a pharhaol sy'n amharu'n sylweddol ar eu bywyd o ddydd i ddydd neu sy'n gwella o gyfnod o broblemau o'r fath sydd wedi digwydd yn y ddwy flynedd diwethaf.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys helpu pobl i reoli cyflyrau fel anhwylder deubegynol, sgitsoffrenia neu anhwylderau bwyta.</p> <p>Nid yw'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> cyflyrau niwrolegol fel dementia anafadau a gafwyd i'r ymennydd <p>Mae ein cyllid yn helpu elusennau arbenigol i lenwi'r bylchau mewn gwasanaethau statudol i bobl sy'n rheoli ac yn gwella o broblemau iechyd meddwl sydd wedi amharu'n sylweddol ar eu bywyd o ddydd i ddydd.</p> <p>Rydym yn awyddus i ariannu elusennau sy'n darparu gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol, sy'n gweithio i gau bwlch mewn darpariaeth statudol. Wrth arbenigol rydym yn golygu bod o leiaf 50% o'r bobl rydych yn eu helpu yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol a/neu eilaidd. Mae gan eich sefydliad lwybrau atgyfeirio rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd, sy'n</p>



		<p>gweithio'r ddwy ffordd</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynnwys 'iechyd meddwl' a/neu gyflwr iechyd meddwl penodol yn eu hamcanion elusennol cyntaf neu ail • dangos enw da am waith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn lle mae'r unigolyn yn cael ei asesu, bod eu hanghenion yn cael eu canfod a bod cynllun ar gyfer cymorth tymor hir yn cael ei roi ar waith. Os na fydd eich sefydliad yn gallu diwallu'r holl anghenion, byddwn yn disgwyl gweld llwybrau atgyfeirio cryf ar waith. Er enghraifft, byddwn yn disgwyl gweld cymorth therapiwtig/cwmsela, helpu'r unigolyn i gael gofal iechyd a chymdeithasol, cymorth tai, budd-daliadau, a datblygu hunan eiriolaeth. <p>Ni fyddwn yn ariannu elusennau sy'n darparu'r canlynol fel eu hunig wasanaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • cwmsela • gweithgarwch llesiant i atal pobl rhag datblygu problemau iechyd meddwl (o'i gymharu â gweithgarwch o'r fath ar gyfer pobl sydd eisoes â salwch iechyd meddwl difrifol) • cyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl statudol neu wirfoddol
<p>Troseddu, carchar neu wasanaeth cymunedol</p>	<p>Nag, oes, ond rhaid i gyfran o'ch gwaith ganolbwyntio ar rai pobl â hanes o droseddu, a chyd-fynd â'r diffiniadau yn Rhan 4 o'r canllaw hwn</p>	<p>Pobl sydd â hanes o droseddu sy'n effeithio'n sylweddol ar eu bywyd bob dydd; adsefydlu pobl â dedfryd o garchar neu wasanaeth cymunedol, gan gynnwys atal aildroseddu.</p> <p>Mae cwestiynau y gall eich asesydd eu gofyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • O ble daw eich atgyfeiriadau? <p>Sut ydych chi'n ymgysylltu â'r gwasanaeth prawf, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, a sefydliadau eraill sy'n helpu pobl â hanes o droseddu?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pa hanes blaenorol sydd gennych o gyflawni canlyniadau positif i bobl â hanes o droseddu? Sut ydych chi'n olrhain/mesur hyn?



<p>Cam-drin rhywiol a chamfanteisio</p>	<p>Ydy – rhaid i fwy na hanner eich gwaith ganolbwyntio ar y Mater Cymdeithasol Cymhleth hwn a chyd-fynd â'r diffiniadau yn Rhan 4 o'r canllaw hwn.</p>	<p>Pobl sydd wedi profi cam-drin rhywiol a chamfanteisio, a all gynnwys unrhyw rai o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cam-drin rhywiol, trais neu gamfanteisio; • anffurfio organau cenedlu menywod; • oedolion sy'n profi trawma o ganlyniad i gam-drin rhywiol neu gamfanteisio hanesyddol • pobl sy'n gysylltiedig â gwaith rhyw lle mae'n cael effaith andwyol sylweddol ar eu bywydau.
<p>Masnachu mewn Pobl a Chaethwasiaeth Fodern</p>	<p>Nag, oes, ond rhaid i gyfran o'ch gwaith ganolbwyntio ar bobl sydd wedi profi Masnachu mewn Pobl a/neu Gaethwasiaeth Fodern, a chyd-fynd â'r diffiniadau yn Rhan 4 o'r canllaw hwn</p>	<p>Pobl sydd wedi cael eu masnachu neu eu gorfodi i weithio yn erbyn eu hewylllys.</p> <p>Mae caethwasiaeth fodern yn derm cyffredinol, sy'n ymdrin â sawl agwedd ar hawliau dynol, gyda masnachu mewn pobl yn un ohonynt. Mae'n cynnwys caethwasiaeth, masnachu mewn pobl, caethwasanaeth a llafur dan orfod neu orfodol. Mae enghreifftiau o gamfanteisio y gall pobl gael eu masnachu iddo a'u cadw'n gaeth yn cynnwys camfanteisio ar lafur, caethwasanaeth domestig, priodas dan orfod, troseddu dan orfod, cynaeafu organau a/neu gamfanteisio rhywiol.</p> <p>Yn ymarferol, mae'r termau caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol.</p> <p>Bydd angen i'r elusen ddangos dealltwriaeth lawn o'r polisi Caethwasiaeth Fodern Cenedlaethol, partneriaethau lleol, darparwyr eraill a cheisio ategu gwasanaethau sy'n weithredol eisoes.</p> <p>Mae cwestiynau y gall eich Swyddog Grantiau eu gofyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn achos yr unigolion hynny sy'n dod i'ch gwasanaeth drwy ddulliau heblaw am y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, sut ydych chi'n penderfynu eu bod yn ddioddefwyr posibl o fasnachu mewn pobl? <p>Sut ydych chi'n gweithio â sefydliadau perthnasol y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol</p>



<p>Rhieni ifanc</p>	<p>Nag – oes, ond rhaid i gyfran o’ch gwaith ganolbwyntio ar Rieni Ifanc, a chyd-fynd â’r diffiniadau yn Rhan 4 o’r canllaw hwn.</p>	<p>Pobl ifanc o dan 21 oed sy’n rhieni ac a all fod wedi’u heffeithio’n andwyol gan eu hiechyd, cydberthnasau a chyfleoedd i barhau â’u haddysg neu symud ymlaen i hyfforddiant/cyflogaeth.</p> <p>Mae ein harian yn cefnogi elusennau sydd ag enw da am weithio â:</p> <p>Mamau neu dadau ifanc i wella eu sgiliau rhianta, hybu cydberthnasau iach, rheoli cartref diogel i’w teulu, rheoli eu harian a datblygu eu potensial eu hunain (sgiliau, cymwysterau a chyflogadwyedd).</p> <p>Mae cwestiynau y gall eich asesydd eu gofyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • A ydych chi’n darparu cymorth wedi’i dargedu at rieni o dan 21 oed ynteu a yw eich gwaith ar gyfer pob rhiant lle mae cyfran ohonynt o dan 21 oed? • ble daw eich atgyfeiriadau? • Sut ydych chi’n gweithio â gwasanaethau lleol eraill sy’n helpu rhieni ifanc?
<p>Cydraddoldeb Hiliol</p>	<p>Nag, oes ond rhaid i gyfran o’ch gwaith ganolbwyntio ar rai un o’r Materion Cymdeithasol Cymhleth eraill yn y tabl hwn, a chyd-fynd â’r diffiniadau yn Rhan 4 o’r canllaw hwn.</p>	<p>O dan ein maes Cydraddoldeb Hiliol, rydym yn awyddus i helpu elusennau lle mae dros hanner eu Bwrdd Ymddiriedolaeth yn gweld eu hunain fel aelodau o’r gymuned Ddu, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig.</p> <p>Bydd eich elusen yn canolbwyntio ar helpu pobl o gymunedau Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig i oresgyn unrhyw rai o’r 11 Mater Cymdeithasol Cymhleth a restrir yma.</p> <p>Mae’r arian hwn yn addas ar eich cyfer chi os gallwch ddangos bod rhai o’r gwasanaethau rydych yn eu darparu’n drwyadl, yn gyfannol ac wedi’u targedu at fater cymdeithasol cymhleth penodol – dyma’r nodweddion yr ydym yn chwilio amdanynt yn y gwaith rydym yn ei ariannu, ac a ddisgrifir yn adran 4. Byddwch hefyd yn gallu dweud wrthym beth yw anghenion y gymuned rydych yn ei gwasanaethu, a sut rydych wedi’u canfod – bydd cwestiwn ychwanegol yn ymddangos ar y ffurflen gais pan fyddwch yn cadarnhau pwyslais gwaith eich elusen.</p> <p>Yn anffodus, ni allwn gefnogi sefydliadau sy’n rhai ailhaen neu seilwaith yn unig, ac ni allwn ychwaith gefnogi sefydliadau sy’n canolbwyntio ar ymgyrchu’n unig.</p>

4. Yr hyn rydym yn chwilio amdano yn y gwaith rydym yn ei ariannu: 'Our Programme Fit'

Fel pob cyllidwr arall, ni allwn ariannu pob cais a gawn. Rydym am ganolbwyntio ar yr elusennau hynny sydd fwyaf tebygol o gael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl sy'n profi'r Materion Cymdeithasol Cymhleth a nodwyd uchod. Rydym wedi datblygu meini prawf ar gyfer nodweddion y gwaith a'r elusennau rydym yn awyddus i'w hariannu:

- i. Trwyadl
- ii. Cyfannol a chanolbwyntio ar yr unigolyn
- iii. Wedi'i dargedu
- iv. Cefnogi o newid
- v. Awydd i ddatblygu

Fel y nodwyd uchod, os ydych yn ymgeisio o dan unrhyw un o'r Materion Cymdeithasol Cymhleth canlynol, rhaid i fwy na hanner eich gwaith fod yn drwyadl, **cyfannol, wedi'i dargedu ac yn cefnogi siwrnai o newid** – 'ein rheol 50%'

- Caethiwed a Dibyniaeth
- Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid
- Cam-drin Domestig
- Digartrefedd
- Anabledd Dysgu
- Iechyd Meddwl
- Cam-drin Rhywiol a Chamfanteisio

Fodd bynnag, os ydych yn ymgeisio o dan **i) Rhai sy'n Gadael Gofal, ii) Troseddu, Carchar neu Wasanaeth Cymunedol, iii) Masnachu mewn Pobl neu iv) Caethwasiaeth Fodern, Rhieni Ifanc neu ein ffrwd gyllido 'Cydraddoldeb Hiliol'**, ni fyddwn yn defnyddio'r prawf hwn – gall unrhyw gyfran o'ch gwaith fodloni'r meini prawf isod.

i) Trwyadl

Rydym yn ariannu elusennau sy'n gweithio â phobl dros gyfnod hir. Byddwn yn ystyried pa mor aml, cyson a rheolaidd ydych chi mewn cysylltiad â'ch defnyddwyr gwasanaeth, ar gyfartaledd. Nid ydym yn ariannu gwaith sy'n gyngor untro'n bennaf, adnoddau ar-lein na 'chyfeirio'.

ii) Cyfannol a chanolbwyntio ar yr unigolyn

Mae cyfannol yn golygu ein bod yn disgwyl gweld 'ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' yn eich gwaith. Byddwch yn asesu'r bobl rydych yn gweithio â hwy i ganfod eu hanghenion penodol, fel y gellir rhoi cynllun cymorth cynhwysfawr ar waith. Rydym yn sylweddoli na ellir disgwyl i unrhyw un gwasanaeth neu elusen ddiwallu holl anghenion client/defnyddiwr gwasanaeth, ond byddwn yn chwilio am dystiolaeth eich bod yn gweithio'n ddwys â defnyddwyr gwasanaeth fel unigolion ac nad ydych yn cynnig gweithgareddau generig yn unig.

Os na fydd eich elusen yn gallu diwallu holl anghenion unigolyn, bydd angen i chi ddweud wrthym sut yr ydych yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill (e.e. drwy atgyfeiriadau â chymorth) i roi sylw iddynt.

iii) Wedi'i Dargedu

Rydym yn ariannu gwaith sy'n benodol, wedi'i anelu'n fwriadol at y sawl sydd wedi'u heffeithio gan un o'n materion cymdeithasol cymhleth i'w helpu i'w goresgyn, i roi sylw neu i reoli'r mater penodol hwnnw. Nid ydym yn dueddol o gefnogi gwaith sy'n adweithiol yn unig, neu sydd o fudd i gymuned ddaearyddol gyfan. Mi fyddwch yn gwybod pwy fydd y buddiolwyr, yn deall eu hanghenion ac yn mynd ati'n rhagweithiol i roi sylw iddynt. Byddwn yn holi a ydych yn ymgynghori â'ch defnyddwyr gwasanaeth yn rheolaidd i sicrhau bod yr hyn rydych yn ei gynnig mor berthnasol a phriodol iddynt â phosibl.

iv) Cefnogi siwrnai o newid

Byddwn yn disgwyl y byddwch yn gallu monitro a mesur newidiadau, positif, seiliedig ar ganlyniadau. Efallai na fydd y rhain yn ganlyniadau 'caled' bob tro (e.e. symud o ddigartrefedd i gartref sefydlog) ond bydd angen inni weld tystiolaeth eich bod yn helpu eich defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu sgiliau newydd, hyder, annibyniaeth, sicrwydd a/neu weithrediad. Nid oes yn rhaid i chi fod yn defnyddio cronfeydd data neu fframweithiau gwerthuso penodol ar gyfer hyn, ond byddwn yn disgwyl y byddwch yn gallu dweud wrthym am y newidiadau positif mae eich defnyddwyr gwasanaeth yn gallu eu gwneud a sut y gwyddoch eu bod yn cael eu gwneud.

v) Awydd i ddatblygu

Gan adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu i helpu elusennau i gryfhau, yn ystod y 6 blynedd diwethaf, rydym wedi rhoi llawer mwy o bwyslais ar gefnogi'r elusennau rydym yn gweithio â hwy sydd ag uchelgais i ddatblygu. Felly, dim ond yr elusennau hynny sy'n dangos awydd i ddatblygu eu helusen ymhellach y byddwn yn eu hariannu. Bydd hyn yn gofyn am ymrwymiad yr arweinyddiaeth a'r Bwrdd, a'r gallu i ymgymryd â gwaith o'r fath.

Gwyddom y gall hyn fod yn wahanol iawn o elusen i elusen, a bod yr amgylchiadau gweithio presennol i elusennau'n rhai anodd dros ben, felly byddwn yn eich holi am yr heriau hyn, ac am eich gweledigaeth ar gyfer y sefydliad, ac i drafod sut y gellir rhoi sylw i anghenion datblygu eich elusen. Gall hyn fod yn unrhyw beth o wella eich trefniadau llywodraethu, i roi cynlluniau cyllido gwell ar waith neu fynd i'r afael â chronfeydd data a chyfathrebu.

Yn hanfodol, ni fyddwn yn ariannu elusennau oni bai eu bod yn croesawu'r help hwn a bod ganddynt arweinyddiaeth sy'n dangos awydd i ddatblygu eu sefydliad ymhellach. Gwyddom na fydd pwyslais o'r fath yn apelio at bawb, felly pan fyddwch yn ymgeisio dylech feddwl yn ofalus ai ni yw'r cyllidwr gorau i chi.

vi) Awydd am bartneriaeth

Rhaid i arweinyddiaeth yr elusen gytuno i berthynas â ni, ac mae hynny'n cynnwys aelodau'r Bwrdd a'r staff cyflogedig, a dylai'r arweinyddiaeth fod yn eangfrydig ac yn meithrin cysylltiadau â sefydliadau eraill yn lleol. Rydym yn cyfeirio at hyn fel 'awydd am bartneriaeth.'

5. Sut i gysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni. Bydd y tîm yn hapus i helpu.

E-bost: enquiries@lloydsbankfoundation.org.uk

Ffôn: 0370 411 1223